Derbyn taliadau uniongyrchol ar gyfer eich plentyn anabl

Cyflwyniad

Os ydi eich awdurod lleol yn cytuno bod eich plentyn angen gwasanaethau gofal, gallwch ddewis derbyn yr arian hynny i brynu'r gwasanaethau eich hun. Dylai taliadau uniongyrchol roi mwy o reolaeth i chi ynghylch sut i ateb anghenion eich plentyn, ond mae hefyd yn golygu mwy o gyfrifoldebau. Mae'r arweiniad hwn yn esbonio sut i fynd ati i dderbyn taliadau uniongyrchol a sut maen nhw'n gweithio'n ymarferol

.

Cynnwys

Beth ydi taliadau uniongyrchol ?
Sut medrai dderbyn taliadau uniongyrchol?
Ar gyfer beth y gallai ddefnyddio taliadau uniongyrchol?
Faint o arian ddylwn i dderbyn o dan taliadau uniongyrchol?
Be sy'n digwydd wrth i mhlentyn brifio?
Dylwn i ddefnyddio darparydd gwasanaeth neu gyflogi PA?
Defnyddio eich taliadau unionngyrchol i brynu gofal gan ddarparydd gwasanaeth
Defnyddio eich taliadau uniongyrchol i gyflogi cymhorthydd presennol
Defnyddio taliadau uniongyrchol i brynu offer
Defnyddio taliadau uniongyrchol i brynu seibiannau byr
A chithau bellach yn derbyn taliadau uniongyrchol
Cwestiynau ofynnir yn aml
Cysylltiadau defnyddiol

Beth ydi taliadau uniongyrchol?

Arian gan eich awdurod lleol(fel rheol drwy adran gwasanaethau cymdeithasol neu'r adran blant) ydi taliad uniongyrchol sy'n caniatau ichi brynu'r gofal y mae eich plentyn ei angen yn hytrach na chael y gwasanaethau wedi'u trefnu ganddyn nhw. Gall taliadau uniongyrchol gael eu defnyddio gan ystod eang o bobl gan gynnwys oedolion a phobl h•n anabl, ond mae'r arweiniad hwn yn edrych yn benodol ar ddefnyddio taliadau uniongyrchol i gefnogi teuluoedd i edrych ar ôl plentyn anabl.

Rheolaeth a hyblygrwydd
Mae rhieni sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol yn gweld yn aml fod ganddynt fwy o reolaeth dros y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn gyda'r gofal yn cael ei ddarparu mewn modd mwy cyfleus a hyblyg.

Mae defnyddio taliadau uniongyrchol yn golygu y dylech allu:

- penderfynu pwy sydd am ddarparu gwasanaethau
- trefnu sut a phryd y bydd unrhyw wasanaeth yn cael ei ddarparu

Defnyddio taliadau uniongyrchol
Gallwch ddefnyddio taliadau uniongyrchol i brynu gwasanaethau gan sefydliad sy'n darparu gofal megis asiantaeth breifat, sefydliad gwirfoddol neu feithrinfa. Neu fe allwch gyflogi rhywun eich hun. Fodd bynnag, ni allwch ddefnyddio eich taliadau uniongyrchol i brynu gwasanaethau gan awdurod lleol.

Yn yr arweiniad hwn, cyfeirir at sefydliad sy'n darparu gofal fel **"darpwrwr gwasanaeth"** a rhywun yr ydych yn ei gyflogi'n uniongyrchol fel **"cymhorthydd personol"(PA)**

Bydd defnyddio taliadau uniongyrchol yn gallu golygu mwy o gyfrifoldebau ichi gan y byddwch y fwy ynghlwm wrth y gwaith o drefnu gwasanaethau. Mae hyn yn enwedig o wir os ydach yn cyflogi PA i helpu ateb gofynion eich plentyn. Tydi taliadau uniongyrchol ddim at ddant pawb a does dim rhaid ichi eu defnyddio os nad ydach chi am wneud hynny. Fodd bynnag, os ydach yn hoffi'r syniad o gael mwy o reolaeth dros wasanaethau ar gyfer eich teulu, yna gall taliadau uniongrychol fod yn opsiwn sydd yn werth ei ystyried.

Pryd y gall taliadau uniongyrchol ymddangos yn opsiwn deniadol ?
Gall taliadau uniongyrchol fod yn arbennig o ddeniadol os:

- nad ydi'r gwasanethau yr ydach yn eu derbyn ar hyn o bryd ddim yn ateb gofynion eich teulu, neu os teimlwch nad oes gennych fawr o ddewud dros sut y mae'r gwasanaethau hynny yn cael eu darparu
- ydach chi'n byw mewn ardal wledig ac anghysbell lle nad oes gwasanaethau priodol ar gael= gall mai cyflogi rhywun lleol fel PA ydi'r unig ddull realistig o dderbyn cefnogaeth
- oes gan eich plentyn anghenion ieithyddol neu ddiwylliannol nad ydi eich darparwr gwasanaeth presennol yn gallu eu hateb
- ydi eich plentyn wedi derbyn asesiad sy'n datgan ei fod angen gwasanaethau ond dach chi wedi bod yn disgwyl am amser hir ar gyfer yr help hwnnw- mae'n bosib y gallwch drefnu eich gwasanaethau eich hun yn syth bin.

Sut medrai dderbyn taliadau uniongyrchol?

Yr hawl i ddewis taliadau uniongyrchol
Mae gennych yr hawl i ddewis taliadau uniongyrchol yn hytrach na derbyn cefnogaeth sydd wedi'i drefnu gan eich awdurdod lleol. Os ydach chi'n derbyn help yn barod gan yr awdurdod lleol, gallwch ofyn am daliadau uniongyrchol yn lle hynny. Os nad ydach chi'n derbyn help ar hyn o bryd, bydd rhaid ichi ofyn i wasanaethau cymdeithasol i asesu anghenion gofal eich plentyn yn y lle cyntaf.
Am fwy o fanylion am asesiadau, gweler ein harweiniad rhad ac am ddim, "Gwasanaethau ar gyfer plant anabl yng Nghymru a Lloegr" sydd ar gael o'n llinell gymorth neu ar ein gwefan.
Web: http://www.cafamily.org.uk

Wedi'r asesiad
Unwaith y mae awdurdod lleol wedi cynnal asesiad mae'n rhaid iddyn nhw benderfynu os oes angen am gefnogaeth ai peidio. Os ydyn nhw'n cytuno bod angen gwasanaethau, dylid creu "cynllun gofal" sy'n amlinellu'r gefnogaeth sydd ei angen. Ar y pwynt hwn, dylai fod gennych yr opsiynau dilynol

- gofyn i'r awdurdod lleol i ddarparu'r gofal wnaiff ateb yr holl anghenion gafodd eu nodi yn y cynllun gofal ; neu
- ofyn am daliadau uniongyrchol fel bo modd ichi brynu gwasanaethau all ateb yr anghenion sydd wedi'u hasesu; neu
- dewis "pecyn cymysg" ble fo gwasanaethau cymdeithasol yn darparu peth o'r gofal a chithau'n defnyddio taliadau uniongyrchol i brynu'r gweddill.

Dim anghenion wedi'u hasesu?
Os nad ydi'r awdurod lleol yn derbyn bod angen cefnogaeth ar eich plentyn, wnawn nhw ddim cynnig taliadau uniongyrchol i chi. Os ydach chi'n anghytuno â'u hasesiad, gallwch ei herio drwy gyfrwng eu gweithdrefn gwyno. Cysylltwch â'n llinell gymorth am fwy o fanylion.

Ar gyfer beth allai ddefnyddio taliadau uniongyrchol?

Mae rhai o'r ffyrdd y gall taliadau uniongyrchol gael eu defnyddio yn cynnwys:

- derbyn help efo gofal personol eich plentyn, ymolchi, gwisgo, bwyta neu helpu edrych ar eu holau dros nos
- gwasanaethau gwarchod i edrych ar ôl eich plentyn pan rydach chi allan
- helpu eich plentyn i ddefnyddio adnoddau hamdden
- helpu gyda gwaith t• gan roi mwy o amser i chi edrych ar ôl eich plentyn
- lle mewn meithrinfa dydd neu ofal wedi ysgol
- rhywun i ddod efo eich plentyn ar wyliau
- gwasanaethau cefnogi tai (ar gyfer pobl ifanc anabl sydd yn 16 neu fwy)
- seibiannau byr
- offer

Dydi'r rhestr hon ddim yn gyflawn. Dylech dderbyn hyblygrwydd o ran sut y byddwch yn gwario'r taliadau uniongyrchol cyn belled â'ch bod yn gallu dangos bod y gefnogaeth yr ydach chi eisiau ei brynu yn ateb anghenion eich plentyn ac yn hybu eu lles

Trafod cynlluniau efo'ch gweithiwr cymdeithasol
Bydd angen ichi drafod eich cynlluniau gyda'ch gweithiwr cymdeithasol ac mi fyddan nhw am greu cytundeb sy'n esbonio pa anghenion gofal gaiff eu hateb drwy daliadau uniongyrchol, sut bydd y gwasanaethau'n cael eu darparu a sut y cawn nhw eu monitro.

Oes yna unrhyw gyfyngiadau ar sut y gallaf ddefnyddio fy nhaliadau uniongyrchol?
Mae yna gyfyngiadau sy'n rhwystro defnyddio taliadau uniongyrchol rhag prynu gofal gan berthasau agos. Gweler y bocs ar dudalen 6 am fwy o wybodaeth fanwl

Os ydach chi'n talu rhywun(heblaw perthynas) i ofalu am blentyn sy'n llai na 8 mlwydd oed yng nghartref y person hwnnw, yna bydd rhaid iddyn nhw fod yn warchodwr plant cofrestredig. Dydi hyn ddim yn berthnasol wrth ichi dalu rhywun i edrych ar ôl eich plentyn yn eich t• eich hun.

Dim ond ar gyfer prynu gwasanaethau fyddai fel arall yn cael eu darparu gan yr awdurdod lleol y gelid defnyddio taliadau uniongyrchol. Ni ellid eu defnyddio i brynu gwasanaethau a welir fel cyfrifoldebau cyrff eraill megis y GIC neu'r awdurdod addysg. Roedd datganiad diweddar gan yr Adran Iechyd yn awgrymu os ydi gwasanaethau cymdeithasol a'ch bwrdd iechyd lleol yn darparu pecyn gofal, dim ond ar gyfer yr elfennau hynny sy'n cael eu hariannu gan y gwasanaethau cymdeithasol neu adran plant eich awdurdod lleol y cewch chi daliadau uniongyrchol.

Ni ellid defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer prynu gofal preswyl parhaol neu ar gyfer gwneud addasiadau parhaol i'ch cartref. Ond, fe ellid ei ddefnyddio er mwyn prynu seibiannau byr ac addasiadau i offer dros dro.

Yn gyffredinol ni ellid defnyddio taliadau uniongyrchol i dalu am lety preswyl ar wahân i nifer cyfyngedig o seibiannau byr(gweler tudalen 2200. Fodd bynnag, penderfynodd llys yn ddiweddar y gallai taliadau uniongyrchol gael eu defnyddio er mwyn cyfrannu ar gostau lleoliad ysgol breswyl barhaol mewn rhai amgylchiadau. Er mwyn sicrhau hyn, byddai'n rhaid defnyddio'r taliadau uniongyrchol i dalu am gost anghenion gofal asesedig y plentyn, ac nid ar gyfer unrhyw ran o'r costau llety. Ffoniwch llinell gymorth Cyswllt Teulu am ragor o fanylion.

Taliadau uniongyrchol a chyflogi perthnasau agos
Mae yna gyfyngiadau rhag defnyddio taliadau uniongyrchol i brynu gofal gan berthnasau agos. Y rheol gyffredinol ydi na allwch ddefnyddio taliadau uniongyrchol i gyflogi perthynas agos sy'n rhannu eich cartref. Fodd bynnag, gall yr awdurdod lleol gytuno i eithriad os credant mai dyma'r unig ffordd effeithiol o ateb anghenion eich plentyn.Dydi'r rheolau ddim yn eich rhwystro rhag defnyddio taliadau uniongyrchol i brynu gofal gan berthynas agos sy'n byw rhywle arall.

Am ragor o fanylion yngylch sut y diffinir perthynas agos neu am ragor o wybodaeth am y rheolau hyn, ffoniwch llinell gymorth Cyswllt Teulu.

Faint o bres ddylwn i gael gyda taliadau uniongyrchol?

Dylai maint eich taliadau uniongyrchol fod yn ddigon i dalu am gost prynu gwasanaeth o'r un maint ac ansawdd y byddai gwasanaethau cymdeithasol wedi'u darparu fel arall.

Talu cymhorthydd personol

Does dim cyfradd genedlaethol benodol wedi ei osod ar gyfer PA's, ond dylech dalu'r isafswm cyflog o leiaf(gweler tudalen 19). Mae'n bosib fod gan eich awdurdod lleol gyfradd dalu "safonol" y maen nhw'n ei ddefnyddio wrth amcangyfrif taliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, os oes gan eich plentyn anghenion cymhleth, dylai eich taliadau uniongyrchol fod yn ddigon ar gvfer prynu gofal priodol ar ei gyfer ef neu hi, hyd yn oed os yw hyn uwchlaw'r gyfradd sy'n cael ei dalu i ateb gofynion plant eraill. Dylai'r gyfradd dâl hefyd ystyried yr ystod o gyfraddau awr gwahanol a fyddai angen eu talu ar gyfer gwaith dydd, nos,penwythmos, g•yl y banc a gwyliau lleol ynghyd â gofal mewn argyfwng

Ateb costau ychwanegol

Os ydach am gyflogi PA, dylai eich taliadau uniongyrchol fod yn ddigonol ar gyfer ateb unrhyw gostau eraill, a fyddai'n rhaid eu hateb cyn y gallai'r gwasanaeth gael ei ddarparu'n gyfreithiol. Gallai hyn gynnwys costau megis:

- yswiriant cenedlaethol cyflogwyr
- yswiriant atebolrwydd cyflogwr l
- tâl gwyliau
- tal salwch a chyflogi eraill yn y cyfnod hwn
- tâl mamolaeth/tadolaeth/mabwysiadu a llanw
- costau hyfforddi
- costau diswyddo(mae angen hyn os ydi rhywun yn colli'u gwaith ar ôl dwy flynedd neu fwy o wasanaeth)
- llanw brys ar gyfer absenoldeb staff
- unrhyw dillad amddiffynol sydd ei angen ar gyfer y cymhorthydd personol
- unrhyw daliadau rhestr gyflog neu gadw llyfrau

Costau'r PA's

Pan fo gwasanaethau cymdeithasol yn amcangyfrif maint eich taliadau uniongyrchol, dylech drafod sut y bydd hynny'n ateb costau eich PA os ydyn nhw'n mynd â'ch plentyn allan i rywle. Er enghraifft, pris mynediad i lefydd neu gost prydau a lluniaeth efo'ch plentyn fel hyn. Os nad ydach chi'n cynnwys y costau hyn mae'n debygf o gyfyngu ar y gweithgareddau y gallent eu gwneud efo'ch plentyn y tu allan i'r cartref

Beth allai wneud os na dwi'n meddwl fod y taliadau uniongyrchol yn ddigon?

Os teimlwch chi na fydd y taliadau uniongyrchol yn ddigon i ateb anghenion eich plentyn, gallwch gwyno am y swm sydd wedi ei gynnig. Cysylltwch â'r llinell gymorth am fwy o fanylion am y weithdrefn gwyno

A fydd disgwyl imi wneud cyfrandad ariannol tuag at fy nhaliadau uniongyrchol?

Os ydi eich awdurdod lleol yn codi am wasanaethau plant, fe allent ofyn ichi dalu tuag at y pecyn gofal y mae eich taliadau uniongyrchol yn eu hariannu, Byddant yn amcangyfrif hwn yn yr un modd y maen nhw'n codi ar y bobl y maen nhw'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer.

Ni ddylid codi arnoch ddim mwy na'r hyn sy'n rhesymol ichi dalu, ac ni ddylid codi arnoch o gwbl os ydach chi neu eich partner yn derbyn Cefnogaeth Incwm , Lwfans Chwilio am Waith seiliedig ar incwm, Credyd Treth Plant ar raddfa uwch na'r elfen deuluol elfennol neu Gredyd Treth Gwaith. Gall yr awdurdod lleol dynnu eich cyfraniad o'r taliadau uniongyrchol cyn ichi eu derbyn. Neu, y dewis arall ydi eu bod nhw'n rhoi'r swm taliad uniongyrchol llawn i chi a gofyn ichi ad-dalu eich cyfraniad chi ar wahân.

Gofyn ichi gyfrannu gormod?

Os teimlwch fod y swm y gofynnir ichi ei gyfrannu yn afresymol yna gallwch herio'r swm hwn.Ar gyfer rhagor o wybodaeth am godi am wasanaethau, ffoniwch ein llinell gymorth

Beth sy'n digwydd wrth i mhlentyn brifio?

Os oes gennych gyfrifoleb rhiant dros blentyn, yna gallwch reoli taliadau uniongyrchol ar eu cyfer cyn belled â'u bod o dan 16. Fodd bynnag, cyn belled â bo hynny'n bosib, disgwylir ichi ystyried barn eich plentyn mewn penderfyniadau sy'n eu heffeithio, yn benodol ynghylch sut i ateb anghenion gofal personol iawn

Pan fo person ifanc y cyrraedd 16
Unwaith y mae person ifanc yn cyrraedd 16m gellid gwneud taliadau iddynt yn syth, Er mwyn i hyn ddigwydd , mae'n rhaid fod ganddynt y cymwysedd meddyliol i"gydsynio" daliadau uniongyrchol. Dydi hyn ddim yn golygu bod rhaid iddynyt reoli taliadau uniongyrchol heb gymorth. Mae'n bosib y bydd angen cymorth gan rieni, gofalwyr, ymddiriedolaeth a reolir gan ddefnyddwyr neu wasanaeth cefnogi lleol.

Does dim rhaid i'r person ifanc ddeall sut y mae taliadau uniongyrchol yn gweithio mewn manylder. Fodd bynnag, mae'n rhaid bod ganddynt y gallu i wneud dewisiadau ynghylch sut yr atebir eu hanghenion gofal.

Os ydi person ifanc 16 neu 17 yn brin o'r cymhwysedd meddyliol i gydsynio i daliadau uniongyrchol, gall eu rhiant eu derbyn yn lle hynny. Os ydi eich plentyn yn 16 neu fwy, yn derbyn y Lwfans Byw I'r Anabl ar y gyfradd uchaf ar gyfer gofal personol ac angen pecyn sylweddol o ofal- gallwch gael arian ychwanegol i brynu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gronfa Byw'n Annibynnol. Ffoniwch ein llinell gymorth am fwy o wybodaeth.

Pan fo person ifanc yn cyrraedd 18
Unwaith y mae person ifanc yn cyrraedd 18, dydi hi ddim yn bosib ar hyn o bryd i barhau i dderbyn taliadau uniongyrchol ar eu rhan. Os oes ganddynt y cymhwysedd i "gydsynio"(gweler uchod), yna dylent dderbyn taliadau uniongyrchol eu hunain. Fodd bynnag, os nad oes ganddyn nhw'r cymwysedd i gydsynio, bydd taliadau uniongyrchol yn dod i ben.

Mae'r llywodraeth yn bwriadu newid y gyfraith i ganiatau i daliadau uniongyrchol gael eu rheoli gan unigolion "priodol" ar ran oedolyn anabl sy'n brin o gymhwysedd meddyliol. Dylai'r newid hwn ddigwydd yn sgil y mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n cael ei ystyried gan y Senedd ar hyn o bryd. Ffoniwch ein llinell gymorth i dderbyn y newyddion diweddaraf am y datblygiad hwn.

Gwasanaethau a thaliadau uniongyrchol i ofalwyr
Fel gofalwr mae'n bosib eich bod wedi derbyn asesiad yn datgan bod angen "gwasanaethau gofal" arnoch chithau hefyd. Mae'r gwasanaethau hyn ar gael i'ch cefnogi wrth eich rôl gofal yn hytrach na gwasanaethau i ateb anghenion eich mab neu ferch. Gallwch dderbyn taliadau uniongyrchol i'ch galluogi chi i brynu gwasanaethau gofalwyr, hyd yn oed os nad ydach chi'n gallu parhau i dderbyn taliadau uniongyrchol ar ran mab neu ferch anabl sydd bellach yn 18 oed neu'n h•n

Ddylwn i ddefnyddio darparwr gwasanaeth neu gyflogi PA?

Mae dewis yr opsiwn gorau yn gallu bod yn broblemus ac mae nifer o faterion y bydd angen ichi ei bwyso a'u mesur.

Defnyddio darparwr gwasnaeth

- bydd dim rhaid ichi fod yn gyfrifol am faterion cyflog gan mai gweithwyr y darparwr gwasanaeth fydd y staff
- mae'n bosib y bydd ganddoch lai o ddweud o ran pwy sy'n gweithio efo'ch plentyn
- gall fod yn ddrutach na chyflogi rhywun yn uniongyrchol

Cyflogi cymhorthydd personol

- bydd yr holl gyfrifoldebau o fod yn gyfogwr yn disgyn arnoch chi
- bydd ganddoch fwy o reolaeth o ran pwy sy'n gofalu am eich plentyn a sut y bydd y gofal hwn yn cael ei ddarparu
- mae'n bosib y gallech gyflogi rhywun sy'n adnabod eich plentyn yn barod

Mae'n bosib defnyddio darparwr gwasanaeth i ateb rhai o ofynion eich plentyn a chyflogi PA i ateb y gweddill

Derbyn help wrth ddefnyddio taliadau uniongyrchol

Gallwch dderbyn cyngor am gyrchu a defnyddio taliadau uniongyrchol ar llinell gymorth Cyswllt Teulu ar 0808 808 3555 (Llu-Gwe 10.00–
4.00; Llun 5.30-7.30).

Cynllunio cefnogi lleol
Mae gan sawl rhan o'r DU gynlluniau cefnogi annibynnol ar gyfer rhoi cymorth ymarferol i bobl wrth sefydlu a rheoli taliadau uniongyrchol. Gall y gwasanaethau cefnogi hyn helpu rhieni i ddelio gyda'r trefniadau ymarferol o ran sefydlu a rheoli taliadau uniongyrchol.Os ydach chi eisiau prynu gofal oddi wrth sefydliad yna fe allent gynnig cyngor ynghylch sut i ddewis darparwr priodol.
Os ydach chi am gyflogi rhywun eich hun gallant eich rhoi chi ar ben ffordd o ran sut i recrwitio a chyflogi unigolyn. Mae llawer o wasnaethau cefnogol hefyd yn cynnig "gwasanaeth rhestr gyflog". Golyga hyn y byddant yn darparu slipiau cyflog, yn didynnu treth ac yswiriant cenedlaethol, ac yn delio gyda Threth a Chyllid y Wlad. Ffoniwch ein llinell gymorth am wybodaeth ynghylch manylion am y gwasanaethau cefnogi taliadau uniongyrchol yn eich ardal chi

Yn yr ardaloedd hynny lle nad oes gwasanaeth annibynnol yn bodoli, dylid bod modd derbyn help efo taliadau uniongyrchol ar gael gan yr awdurdod lleol

Mae'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Byw'n Annibynnol(NCIL) hefyd yn darparu cyngor ac hyfforddiant ar gyfer pobl sy'n cyflogi PA's. Ar gyfer rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau y mae NCIL yn ei ddarparu, edrychwch ar yr adran ar gysylltiadau defnyddiol ar ddiwedd y llyfryn hwn.

Defnyddio eich taliadau uniongyrchol i brynu gofal gan ddarparydd gwasanaeth

Mae llawer o wasanaethau yn darparu gwasanaethau gofal. Mae rhai honynt yn elusennau cenedlaethol mawr, mae rhai yn sefydliadau gwirfoddoli llai ac mae rhai yn gwmnïau preifat megis asianataethau gofal neu meithrinfeydd.

Cael hyd i wasanaethau yn eich ardal chi

Mae nifer o ffyrdd y gallwch ddarganfod pa wasanaethau sydd ar gael yn eich ardal. Man da i gychwyn fyddai eich cynllun cefnogi tadau uniongyrchol lleol.Mae'n bosib hefyd yr hoffwch ofyn i'r adran gwasanaethau cymdeithasol am restr o ddarparwyr gwasanaeth "cymeradwy" y maen nhw'n delio â nhw. Dylech hefyd allu cael rhestr o ddarparwyr gofal plant cofrestredig sydd wedi'u cymeradwyo yn eich ardal drwy ffonio eich Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Plant lleol.
Ar gyfer manylion cyswllt ffoniwch: 0800 096 0296 neu ewch ar y
Wefan: http://www.childcarelink.gov.uk

Gwasanaethau a ddylai fod wedi'u cofrestru

Mae darparwyr gofal wedi'u cofrestru ac fe'u harolygir gan y Arolygiaeth Safonau Gofal yng Nghymru ac un ai OFSTED neu'r Comisiwn Arolygiaeth Gofal Cymdeithasol yn Lloegr(gweler "cysylltiadau defnyddiol" am fwy o fanylion). Mae sawl math o ddarparydd gofal angen eu cofrestru. O ran a ydi hyn yn ofynnol, mae'n dibynnu ar y math o ofal a ddarperir a ble mae hyn yn digwydd. Cysylltwch â'ch gwasanaeth cefnogi taliadau uniongyrchol lleol am fwy o gyngor.

Siaradwch efo teuluoedd eraill yn defnyddio gwasanaethau

Mae'n syniad da siarad efo teuluoedd eraill am eu profiadau hwy o dderbyn gofal gan ddarparwyr gwasanaeth penodol. Ffoniwch ein llinell gymorth am ddim ar gyfer manylion ynghylch y gr•p cefnogi rhieni neu ganolfan ofalwyr agosaf

Y darpwr gwasanaeth ydi'r cyflogwr

Os ydach chi'n defnyddio darparwyr gwasanaeth, nhw fydd yn gyfrifol am gyflogi, rheoli a thalu'r gweithwyr gofal a ddanfonir atoch i gefnogi eich anghenion. Chi fydd eu "cwsmer" nhw yn talu am y gwasanaethau gofal sy'n cael eu darparu.

Y mathau o wasanaethau yr ydach chi'n chwilio amdanynt

Cyn siaard efo darparwr gwasanaeth mae'n syniad da cael syniad clir o'r math o wasanaeth yr ydach chi'n chwilio amdano. Dylai eich cynllun gofal egluro'n glir pa fath o help sydd ei angen ond dylech feddwl oes yna ffyrdd arbennig yr hoffech i'r tasgau hyn gael eu cyflawni.

Cwestiynau defnyddiol i ofyn i ddarparwr gwasanaeth

Gall rhai o'r cwestiynau dilynol fod o fudd:

- Ydyn nhw'n gallu darparu'r math o ofal y mae eich plentyn ei angen yn y ffordd ydach chi am ei weld?
- Beth ydi costau'r gwasanaeth?
- Ydi'r pris hwn yn cynnwys popeth neu oes costau ychwanegol(ee costau teithio, TAW?)
- Oes rhaid prynu isafswm gofal?
- A fydd gennych ddewis o ran y gweithwyr a fydd yn gofalu am eich plentyn?
- A fydd yr un staff gofal yn cael eu danfon yn gyson?
- Beth ydi polisi'r asiantaeth ar godi a chari a defnyddio hoists?
- Oes modd cysylltu â'r darparwr gwasanaeth pob amser pan fo gwasanaeth yn cael ei ddarparu?
- Oes gwasanaeth brys y tu hwnt i oriau? Ydi hwn yn costio mwy?
- Pa ymrwymiadau fydd gennych os ydach chi am ganslo'r contract?
- Ydi'r darparwr wedi'i gofrestru?
- Ydi'r ddarpariaeth yn ateb safonau gofal cenedlaethol?
- Oes gan y darparwr yswiriant proffesiynol ac yswiriant atebolrwydd cyflogwr?
- Ydyn nhw'n glynu at Gôd Ymarfer cydnabyddedig?
- Sut maen nhw'n recriwtio staff? Pa hyfforddiant a roir? Pa fath o wiriadau heddlu sy'n cael eu cynnal?
- Beth ydi'r weithdrefn gwyno os ydi rhywun yn anhapus â'r gwasanaeth?

Barn eich plentyn
Mae'n wastad yn syniad cynnwys eich plentyn cymaint â phosib yn y penderfyniadau ynghylch pa wasanaethau sydd i'w defnyddio i ateb eu hanghenion gofal, gan ddibynnu ar dealltwriaeth y plentyn, gallant ddod efo chi i weld gwasanaeth darparwr gwasanaeth,neu efallai ymweld â'ch dewis cyntaf a'ch ail ddewis.

Cyn belled â bod hynny'n bosib dylech geisio barn eich plentyn neu mesur eu hymateb i'r oedeolion fydd yn eu cefnogi

Cytuno ar gytundeb gyda'r darparwr gwasanaeth
Unwaith yr ydach chi wedi dynodi darparwr gwasanaeth yr ydach chi am eu defnyddio, bydd angen ichi lunio cytundeb ysgrifennedig sy'n amlinellu:

- y gwasanaeth i'w ddarparu, er enghraifft faint o oriau sydd ei angen a ble a phryd y bydd angen darparu'r oriau hyn
- telerau ac amodau derbyn y gwasanaeth gan gynnwys y costau a sut a phryd y bydd rhain yn cael eu talu
- y trefniadau os oes rhaid newid y cytyundeb
- y trefniadau o ran terfynu eich cytundeb

Defnyddio eich taliadau uniongyrchol i gyflogi cymhorthydd personol (PA)

Os ydach chi'n penderfynu cyflogi rhywun eich hun, chi fydd yn gyfrifdol am recriwtio'r person hwn ac am eu rheoli unwaith y byddant yn dechrau gweithio ar eich rhan. Golyga hyn y bydd gennych holl gyfrifoldebau sy'n rhan o gyflogi y person hwnnw. Ceir crynodeb o rai o'r prif faterion ynghlwm wrth hyn yn y tudalennau sy'n dilyn. **Os yw hyn oll yn swnio'n frawychus iawn- peidiwch â phoeni!** Dylech dderbyn cyngor arbenigol ar bob cam o recriwtio a chyflogi unigolyn gan gynllun lleol cefnogi taliadau uniongyrchol

Beth a phwy ydach chi'n chwilio amdano?
Y cam cyntaf wrth gyflogi PA yw penderfynu pa fath o berson yr ydach chi'n chwilio amdano a faint o staff ydach chi eu hangen. Bydd y cynllun gofal yn helpu chi wneud hyn, ond byddwch hefyd angen meddwl yn fanwl am y fath o dasgau yr ydach chi am i'r PA ei wneud. Pwy bynnag y gwnewch chi gyflogi, mae'n bwysig bod ganddynt agwedd bositif tuag at anabledd ac yn ymrwymedig i helpu eich plentyn gyrraedd ei botensial llawn.

Rhaid osgoi rhagfarnu'n anheg yn erbyn ymgeiswyr
Wrth recriwtio unigolyn, mae'n rhaid ichi sicrhau nad ydach chi'n rhagfarnu yn erbyn ymgeiswyr yn anheg. Mae'n bosib weithiau gosod rhai cyfyngiadau o ran hil a rhywedd, ond dim ond mewn amgylchiadau penodol. Er enghraifft, mae'n bosib na fyddai'n rhagfarn rhyw i gyfyngu'r swydd i unigolyn o'r un rhyw â'ch plentyn os ydi'r swydd yn cynnwys gofal personol. Mae'n bosib hefyd na fyddai'n cael ei ystyried yn ragfarn hiliol i gyfyngu swydd i berson o gr•p hil penodol os mai dyma fyddai'r ffordd mwyaf effeithiol ar gyfer darparu gwasanaethau personol ar gyfer eich plentyn, er enghraifft rhywun sy'n gallu siarad yr un iaith â'ch plentyn.

Os oes gennych unrhyw amheuon am yr hyn allai gael ei ystyred yn ragfarnu anheg, yna ffoniwch eich gwasanaeth cefnogi taliadau uniongrchol lleol. Fel arall, dylech allu derbyn cyngor gan y Comisiwn dros Gydraddoldeb a Hawliau Dynol

Creu disgrifiad swydd a ffurflen gais

Cyn mynd ati i recriwtio rhywun byddai'n syniad da creu swydd disgrifiad. Bydd hyn yn caniatau ichi a'r PA fod yn glir o ran yr hyn a ddisgwylir ohonynt ac mi fydd yn ddefnyddiol hyd yn oed os ydach chi am gyflogi rhywun yr ydach chi'n eu hadnabod. Dylai'r swydd ddisgrifiad gynnwys esboniad o bwrpas y swydd, disgrifiad o'r prif gyfrifoledbau a manylion am yr oriau gwaith a'r cyfraddau cyflog. Efallai y gallech ystyried creu proffil person. Mae hwn yn restr o'r math o sgiliau, gwybodaeth, profiad a rhinweddau eraill yr ydach chi'n chwilio amdano mewn PA. Wrth wneud hyn, bydd angen ichi fod yn glir iawn am y pethau y mae'n bwysig iawn fod gan yr unigolyn yn barod a pha fath o sgilau y gallant eu dysgu nes ymlaen

Rydym hefyd yn argymhell llunio ffurflen gais. Dylai hynny gynnwys y meysydd canlynol:

- manylion bywgraffiadol, er enghraifft, enw a chyfeiriad
- hanes cyflogaeth
- manylion am brofiad personol neu waith gwirfoddol efo plant anabl
- hyfforddiant neu gymwysterau
- pam fod yr unigolyn dan sylw am fod yn gymhorthydd personol i'ch plentyn
- perchnogaeth car a thrwydded yrru(os oes angen hyn)
- enw a chyfeiriad dau ganolwr- dylai hyn wastad gynwys y man gwaith olaf neu'r lleoliad gwaith gwirfoddol diwethaf
- unrhyw fanylion am ddedfrydau troseddol
- eu cytundeb i ymgeisio am wiriad CRB(gweler y bocs ar dudalen 16-17)

Gall eich cynllun cefnogi taliadau uniongyrchol lleol eich helpu i lunio disgrifiad swydd, proffil person a ffurflen gais.

Hysbysebu am PA

Onibai eich bod yn bwriadu cyflogi rhywun yn ydach chi'n eu hadnabod yn barod, bydd angen ichi lunio hysbyseb yn amlinellu manylion sylfaenol megis:

- disgrifiad byr o'ch plentyn
- pa fath o waith yr ydach chi am i'r person ei wneud
- yr oriau a'r tâl
- Sut i gysylltu â chi

Ble i Hysbysebu

Mae nifer o fannau lle gallwch osod hysbsyseb. Bydd eich Canoolfan Waith leol yn gosod hysbysebion am ddim. Efallai y gallwch osod hysbysebion mewn papurau lleol, archfarchnadoedd lleol, mewn siopau neu adnoddau cymunedol. Mae rhai cynlluniau cefnogi taliadau uniongyrchol yn gallu helpu wrth hysbysebu am staff.

Gall argymhelliad llafar fod yn ddefnyddiol- felly cofiwch son wrth ffrindiau a phobl broffesiynol am yr hyn yr ydach yn ei wneud. Os oes gr•p cefnogi yn eich ardal, mae'n bosib yr hoffech son am yr hysbyseb wrth rieni eraill.
Mae yna rai grwpiau o bobol allai fod yn addas iawn i weithio fel PA

- pobl sydd wedi gweithio efo plant anabl
- pobl sydd wedi gweithio efo plant
- pobl sydd wedi gweithio efo oedolion neu bobl h•n anabl

O gofio hyn gall fod yn syniad i ddanfon eich hysbyseb ynghyd â llythyr ynghlwm at ysgolion lleol, meithrinfeydd, adrannau trafnidiaeth ysgolion, canolfannau dydd a gwasanaethau ieuenctid. Efallai y byddai rhai o'r canolfannau hyn yn fodlon arddangos eich hysbyseb ar hysbysfwrdd rhag ofn bod rhai o'u staff yn edrych am waith ychwanegol.

Sicrhau preifatrwydd

Yn ein barn ni ddylech gynnwys eich cyfeiriad yn yr hysbyseb er y bydd rhaid ichi ddweud ym mha ardal gyfredinol yr ydach yn byw. Ystyriwch ddefnyddio bocs PO neu roi rhif ffôn yn lle hynny.

Cyfweld ymgeiswyr

Bydd angen ichi gymharu'r rhestr o ymgeiswyr wrth ymyl y rhestr o sgiliau a nodweddion yr ydach chi'n chwilio amdanynt, Ar ddiwedd y broses hon, dylai fod gennych restr fer o bobl yr hoffech eu cyfweld. Bydd angen ichi hefyd benderfynu ble i gynnal y cyfweliadau. Os dach chi'n poeni am breifatrwydd neu ddiogelwch efallai y byddai'n well ichi logi ystafell mewn canolfan gymunedol neu ganolfan deuluol. Fodd bynnag, mae'n bosib byddai angen cynnal cyfweliad mwy anffurfiol yn y cartref fel y gall eich ymgeiswyr gorau gyfarfod eich plentyn.
Mae'n syniad da gofyn i rywun arall helpu efo'r cyfweliad megis partner neu frind. Bydd hyn yn rhoi ail farn ar ymgeiswyr. Cofiwch gymryd nodiadau yn ystod y cyfweliad er mwyn eich helpu chi gofio beth a gafodd ei ddweud.

Cwestiynau i'w Gofyn

Mae yna rai cwestiynau y byddwch am ofyn i bawb sy'n cael cyfweliad. Bydd hyn yn caniatau ichi gymharu un ymgeisydd ag ymgeisydd arall, Gallai hyn gynnwys pam eu bod yn ymgeisio am y swydd, eu profiad ac hyfforddiant, eu syniadau a'u barn ar anabledd a gofal plant. Gallai fod yn syniad creu senario neu ddau yn seiliedig ar sefyllfaoedd allai godi wrth edrych ar ôl eich plentyn. Mae'n bosib hefyd y byddech an ofyn cwestiynau penodol yn codi o'r wybodaeth ar y ffurflen gais.Er enghraifft dylech ofyn am gyfnodau yn eu gyrfa lle bo bwlch yn eu cyflogaeth os nad ydi hyn wedi'i esbonio yn eu ffurflen gais.

Cynnwys eich plentyn yn y broses.

Yn ddelfrydol, byddai'n dda gallu cynnwys eich plentyn yn y broses gyfweld mewn un ffordd neu'r llall. Yn benodol, efallai y gallech ystyried gadael i'r ymgeiswyr gorau gyfarfod eich plentyn. Bydd hyn yn caniatau ichi weld sut y mae nhw'n rhyngweithio efo'ch plentyn- ydi'r ymgeisydd yn ymddnagos yn hyderus a naturiol yn y modd y maen nhw'n perthynu i'ch plentyn. Dylech hefyd geisio asesu beth oedd eich plentyn yn feddwl neu'n deimlo am yr unigolyn dan sylw un ai drwy siarad efo nhw neu arsylwi ar eu hymddygiad a'u hymateb emosiynol.

Wedi ichi wneud penderfyniad

Unwaith yr ydach wedi penderfynu cyflogi rhywun fel PA dylech gysylltu â'r person hwnnw/o i gynnig y swydd iddynt, yn ddibynnol ar y gwiriadau priodol. Dylai hyn gynnwys gwiriad gan y CRB(gweler y bocs ar dudlaen 16-17 am fwy o wybodaeth), ond ar ben hynny dylech geisio prawf lawn o hunaniaeth y PA gan gynnwys cyfeiriadau cyfredol a diweddar a gofyn am ganiatâd i rannu hyn efo'r awdurdod lleol. Dylech hefyd ofyn am ddau adroddiad gan ganolwyr . Dylid gofyn i'r PA am ddatganiad nad oes unrhyw gofnod troseddol, ymchwiliadau cyfredol neu wybodaeth arall am eu hymddygiad fyddai'n eu gwneud nhw'n anaddas i weithio efo plant. Mae'r gwiriadau hyn dal yn berthnasol hyd yn oed os ydach chi'n adnabod y person yr ydach chi am eu cyflogi.

Cytundebau cyflogaeth

Unwaith mae'r gwiriadau hyn wdi eu cwblhau, gallwch gysylltu â'r ymgeisydd i drefnu dyddiad iddyn nhw gychwyn ar eu gwaith. Ar y pwynt hwn,dylech ddanfon contract cyflogaeth iddyn nhw ei arwyddo. Gofynnwch am help gan eich cynllun cefnogi taliadau uniongyrchol lleol. Gall hyn

swnio'n ffurfiol iawn, ond bydd contract ysgrifenedig yn sicrhau fod gennych chi a PA eich plentyn yr un ddealltwriaeth am y hyd a lled y swydd. Bydd hyn hefyd o fudd os y bydd unrhyw anghytuneb yn nes ymlaen. Dylai'r contract gynnwys y meysydd canlynol:

- eich enw chi ac enw'r gweithiwr
- teitl y swydd
- dydiad cychwyn, ac os mai swydd dros dro sydd yma, y dyddiad terfyn
- tâl – faint, pryd a sut y caiff ei dderbyn. Bydd angen ichi ddatgan yn glir os bydd treth ac yswiriant cenedlaethol yn cael eu tynnu
- oriau gwaith
- manylion (mewn cymaint o fanylder ag sy'n briodol yn eich barn chi)
- trefniadau gwyliau
- cyfnodau salwch a hawl i gyfnodau eraill o'r gwaith
- cyfnod rhybudd
- trefniadau pensiwn(hyd yn oed os mai dim ond datgan na fydd cynllun pensiwn a geir yma)
- os mai safle "byw i mewn" sydd dan sylw, unrhyw drefniadau penodol ar gyfer byw yn eich cartref

Dylech ddefnyddio contract hyd yn oed os ydach chi'n cyflogi unigolyn yr ydach yn eu hadnabod yn dda.

Datganiad ysgrifenedig o'r prif amodau cyflogaeth.

Mae dyletswydd cyfreithiol arnoch o leiaf i ddarparu datganiad ysgrifenedig o brif amodau cyflogaeth, oddi mewn i ddeu fis i'r adeg y bydd y gweithiwr yn cychwyn yn y gwaith. Fodd bynnag, byddem ni'n argymell rhoi cytundeb cyflogaeth llawn iddyn nhw. Dylech chi hefyd roi gwybod i'ch PA am fanylion y prosesau disgyblaeth a chwyno fyddai'n digwydd pe bai problemau'n codi. Gallwci dderbyn cyngor am weithdrefnau priodol gan wasanaethau cefnogi taliadau uniongyrchol lleol. Fel arall gellid lawlwytho gweithdrefnau samplo gan ACAS
Web: http://tinyurl.com/2hmhml

Gwiriadau gan y Biwro Cofnodion Troseddol (CRB) er mwyn sicrhau nad ydach chi yn rhoi eich plentyn mewn perygl

Ble fo chi'n cyflogi PA i ofalu am eich plentyn , fydd y gwasanaeth a roir ganddynt ddim yn cael ei fonitro gan unrhyw asiantaeth allanol. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y person yr ydach chi'n eu cyflogi yn berson addas i weithio efo plant. Awgrymir yn gryf eich bod yn gofyn i'ch awdurdod lleol i gynnal gwiriad manwl ar unrhyw weithiwr posib drwy gyfrwng y Biwro Cofnodion Troseddol.

Mae gwiriad gan y CRB yn wiriad manwl o unrhyw gofnodion troseddol

Mae'n arfer da i gynnal gwiriad CRB hyd yn oed pan eich bod yn adnabod y person yr ydach am eu cyflogi. Er na all awdurod lleol fynnu bod gwiriad CRB yn cael ei gynnal, fe allent wrthod cytuno i daliadau uniongyrchol os ydyn nhw'n teimlo bod yna unrhyw berygl i'ch plentyn.

Ymgeisio am wiriad gan y CRB

Chewch chi ddim ymgeisio am y gwiriad CRB eich hun- bydd rhaid i'r cais gael ei wneud gan y PA arfaethedig. Caiff y gwiriad hwn ei wneud drwy sefydliad cofrestredig, sef eich awdurdod lleol fel arfer, a fydd hefyd yn gwrth-arwyddo'r cais. Gofynnwch i'r awdurdod lleol dalu am gostau'r gwiriad.

Pan fo'r gwiriad wedi'i gwblhau

Bydd canlyniadau gwiriad y CRBN yn cael eu danfon at yr ymgeisydd nid atoch chi. Bydd dim modd ichi edrych ar y canlyniadau hyn onibai fod yr ymgeisydd yn dewis eu dangos nhw. Serch hynny, bydd y sefydliad cofrestredig yn rhoi gwybod ichi a ddylech symud ymlaen gyflogi'r person hwnnw. Ond, bydd dim modd iddyn nhw drafod cynnwys y CRB efo chi.
Yn ystod Hydref 2008, bydd Awdurod Diogelu Annibynnol yn cael ei sefydlu i fonitro unigolion sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion bregus. Ffoniwch y llinell gymorth am ragor o fanylion.

Cyflogi PA am gyfnod prawf cychwynnol

Mae'n syniad da cynnig y swydd ar gyfnod prawf cychwynnol. Rho hyn gyfle ichi weld sut un ydi eich PA cyn cynnig swydd barhaol iddynt. Gwnewch hi'n glir y bydd cyfnod prawf fel hyn yn cael ei roi ar waith yn y cyfweliad ac yn y contract, gan esbonio beth fydd hyd y contract hwn.

Paratoi ar gyfer PA yn cychwyn

Cyn i'ch PA gychwyn, mae'n bosib yr hoffech baratoi peth nodiadau am eich plentyn ar eu cyfer. Mae gwybod am yr hyn y mae eich plentyn yn ei hoffi a ddim yn ei hoffi yn helpu'ch PA i setlo yn gynt. Efallai yr hoffech drafod cyfnod trosglwyddo, ble y byddwch yn cyd-weithio â'r PA i ddangos iddynt sut dach isio iddyn nhw wneud y gwaith.

Tâl, Treth ac Yswiriant Cenedlaethol(NI)

Os ydach chi'n recriwtio PA, yna chi fydd eu cyflogwr. Yr unig eithriad i hyn yw pan fydd eich PA yn hynan gyflogedig(gweler y bocs ar dudlaen 20). Fel cyflogwr, byddwch yn gyfrifol am dynnu treth ac yswiriant cenedlaethol a phasio'r rhain ymlaen i Dreth a Chyllid y Wlad
Wrth ichi gyflogi eich PA cyntaf, bydd rhaid ichi gysylltu â Llinell Gymorth Cyllid y Wlad ar gyfer Cyflogwyr Newydd(gweler "cysylltiadau defnyddiol". Byddant hefyd yn danfon pecyn cychwyn ar gyfer cyflogwyr, sy'n cynnwys tablau er mwyn cyfrifo treth a chyfraddau yswiriant cenedlaethol(NI), ffurfiau amrywiol y byddwch eu hangen a chyhoeddiad o'r enw "Talu rhywun am y tro cyntaf"

Byddant yn trefnu sefydlu cynllun PAYE(talu wrth ichi ennill) fel y gallwch dynnu treth o ennillion eich gweithiwr. Os ydi eich cyflogwr yn ennill llai na swm penodol(£160 yr wythnos gros ar hyn o bryd), yna bydd Cyllid y Wlad yn gweithredu cynllun didyniadau symlach, yn hytrach na'r PAYE llawn.

Ar ben hynny, bydd angen ichi dynnu cyfranidau NI o ennillion eich gweithwyr, cyn belled â'u bod yn ennill mwy na swm wythnosol penodol(sy'n newid pob blwyddyn). Yn ogystal â thynnu cyfraniadau eich gweithwyr, mae'n rhaid i chithau wneud taliadau(cyfraniadau cyflogwr) tuag at eu NI.

Faint i dynnu ar gyfer treth a NI

Mae'r hyn y bydd rhaid ichi dynnu ar gyfer treth a NI yn dibynnu ar yr oriau ac ennillion arferol yr unigolyn sy'n cael ei gyflogi gennych. Os mai dim ond am gyfnod byr y bydd eich PA yn gweithio pob wythnos, efallai nad ydyn nhw'n ennill digon i dalu treth neu NI. Sut bynnag, mae rhai PA's yn gweithio i nifer o gyflogwyr ar yr un pryd, a bydd rhaid i bob un ohonynt dynnu peth treth a NI.

Does dim cyfradd wedi'i osod ar gyfer tâl yr awr i PA, ac mae'r swm y bydd rhaid ichi ei dalu yn dibynnu ar ble rydach chi'n byw yn y DU a chymhlethdod anghenion eich plentyn. Fodd bynnag, cofiwch bod rhaid talu'r isafswm cyflog o leiaf(NNW)/ Mae'r swm hwn yn amrywio gan ddibynnu ar oed ac fel rheol, mae'n cynyddu pob mis Hydref. Mae rheolau cymhleth o ran NMW mewn sefyllfa ble fo'r PA yn cysgu'r nos. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch llinell gymorth NMW Cyllid y Wlad ar: 0845 6000 678 neu ewch at
Web: http://www.hmrc.gov.uk/nmw

Help efo materion treth, NI a thâl

Dylai sefydliad taliadau uniongyrchol lleol allu rhoi gwybodaeth fanwl ynghylch sut i ddelio gyda materion treth a NI. Mewn rhai achosion, gallent gynnig "gwasanaeth rhestr gyflogau"- golyga hyn y byddant yn darparu slipiau cyflog a thynnu treth a NI a'ch helpu i ddelio gyda Chyllid y Treth.Mae'n bosib y gallwch dderbyn manylion pellach gan NCIL(gweler yr adran "Cysylltiadau Defnyddiol" am fwy o fanylion)neu Cyllid y Wlad. Ffoniwch eich swyddfa dreth leol) edrychwch yn yn y llyfr o Dan Cyllid y Wlad) a gofynnwch am yr "adran gyflogwyr" neu ffoniwch llinell gymorth Cyllid y Wlad ar gyfer Cyflogwyr Newydd ar:
0845 607 0143 (Llu-Gwe 8.00-8.00;
Sad a Sul 8.00-5.00).

Mae'n rhaid fod gennych yswiriant atebolrwydd cyflogwyr

Mae gan bob cyflogwr ddyletswydd gofal cyfreithiol tuag at eu gweithwyr wrth eu gwaith. Mae hyn yr un mor wir os ydach chi'n cyflogi ffrind neu berthynas agos. Os ydi'r PA yn brifo o ganlyniad i ddamwain yn y gwaith a hwythau'n credu mai'r cyflogwr oeddyn gyfrifol, gallant hawlio iawndal. Ohewrydd hyn, mae'n orfofdaeth ar gyflogwyr i gael yswiriant atebolrwydd cyflogwyr. Dylech hefyd sicrhau fod gennych yswiriant atebolrwydd cyhoeddus sy'n eich amddiffyn rhag ofn i'ch PA frifo rhywun arall neu beri niwed i'w heiddo tra'n gweithio ichi.

Ystyriwch gymryd indemniad cyflogwyr

Mae rhai cyflogwyr PA hefyd yn cymryd indemniad cyflogwyr. Mae'r polisi yswiriant hwn yn un dewisol ac yn amddiffyn y cyflogwr rhag unrhyw gostau sy'n codi o ran amodau a thelerau'r cyflogaeth, er enghraifft costau cyfreithiol wrth ateb achos o ddiswyddo anheg.

Yswiriant eraill i'w hystyried

Os bydd y PA yn defnyddio eich car, bydd angen ichi sicrhau bod ganddyn nhw yswiriant ar gfer hyn

Cael hyd i gwmni yswiriant

Mae rhai cwmnïau yswiriant yn darparu polisiau yn benodol ar gyfer cyflogwyr PA's. Chwiliwch am gyngor gan sefydliad cefnogi lleol neu frocer yswiriant.

Gwyliau ac hawl i amser o'r gwaith

Mae gan bob gweithiwr hawl i dderbyn o leiaf 168 (4.8 x 35) awr. Os mae rhywyn yn gweithio 10 awr yr wythnos mae ganddynt hawl i o leiaf 48 (4.8 x 10) awr o dâl llawn. Mae PA yn dechrau deillio hawl i amser o'r gwaith o'r diwrnod cyntaf o weithio. Am bob 13 wythnos wedi gweithio byddent wedi deillio un wythnos o amser o'r gwaith.

Fel cyflogwr byddwch hefyd yn gyfrifol bod unrhyw aelod o staff sy'n gymwys yn derbyn tâl salwch statudol, yn ogystal a thâl mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu statudol ble fo hyn
yn berthnasol. Gellid derbyn mwy o gyngor oddi wrth Llinell Gymorth Cyllid y Wlad ar gyfer cyflogwyr newydd, ACAS neu eich gwasnaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol lleol.

Be sy'n digwydd os dywed fy PA ei bod eisiau bod yn hunan gyflogedig

Y trefniant arferol wrth ichi recriwtio PA yw eu bod yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol fel gweithiwr gennych chi. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gall eich PA ddweud eu bod yn hunangyflogedig. Holwch am gyngor pan ddigwydd hyn gan y gall rhai PA's feddwl eu bod yn hunangyflogedig mewn sefyllfaoedd lle nad ydynt.

Ddim yn siwr ai gweithiwr yntau hunangyflogedig ydi gweithiwr?

Nid mater o ddewis ydi hi fel rheol os ystyrir unigolyn yn hunangyflogedig at ddibenion treth ac yswiriant cenedlaethol. Yn y bôn, penderfyniad ar gyfer Cyllid y Wlad ydi hyn, fel yr esbonir yn eu tafllen "Cael eich cyflogi neu'n hunangyflogedig"? Arweiniad ar dreth ac yswiriant cenedlaethol"(1R56)all eich helpu i sefydlu a ydi unigolyn yn hunangyflogedig ai peidio. Os oes gennych unrhyw amheon am hyn, dylech geisio cyngor gan llinell gymorth Cyllid y Wlad ar gyfer cyflogwyr newydd(gweler "cysylltaidau defnyddiol") a daliwch ati efo'r didyniadau treth ac NI safonol tan y daw ateb i'r fei.

Dylech hefyd geisio cyngor gan eich gwasanaeth cefnogi taliadau uniongyrchol lleol gan fod mater gwahanol i'w ystyried o ran a ydi rhywun yn hunan gyflogedig at ddibenion cyfraith cyflogaeth neu

Costau Hyfforddi
Efallai y bydd y person a benodir gennych i ofalu am eich plentyn angen rhagor o hyfforddiant. Mae'n bosib y gallech ddarparu peth o hyn eich hun, er enghraifft am batrymau dyddiol eich plentyn. Bydd rhaid darparu hyfforddiant pellach, er enghraifft o ran codi a thrin, gan hyfforddwr arbenigol. Dylech drafod efo'ch awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd i weld sut orau i wneud hyn. Mewn rhai achosion, bydd yswiriwr angen prawf o hyfforddiant briodol fel rhan o'u cytundeb I ddarparu yswiriant atebolrwydd cyflogwyr/cyhoeddus. Dylid cynnwys costau unrhyw hyfforddiant priodol fel rhan o'ch costau sefydlu yn y taliadau uniongyrchol.

Materion iechyd a diogelwch
Fel cyflogwr, chi sy'n gyfrifol dros sicrhau nad ydi PA yn anafu'i hun wrth weithio ichi. Golyga hyn wirio elfennau sylfaenol o gwmpas y ty er mwyn sicrhau nad oes yno beryglon posib, megis carpedi wedi gwiso ac offer trydanol gwallus. Gofynnwch i'ch awdurod lleol oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch perthnasol yn eu barn hwy, yn enwedig o ran codi a chario. Dylech dderbyn copïau o unrhyw asesiadau risg diweddar a gynhaliwyd ar eich plentyn ganddyn nhw, a dylent sicrhau bod offer priodol yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau trosglwyddo diogel.

Defnyddio taliadau uniongyrchol i brynu offer

Os ydi asesiad eich plentyn yn dynodi angen am offer neu addasiadau dros dro i'ch cartref, dylech gael yr opsiwn i brynu hyn drwy gyfrwng taliadau uniongyrchol. Wrth benderfynu faint o angen sydd ei angen, dylai'r awdurdod lleol ystyried yr arbenigedd sydd ei angen er mwyn sicrhau bod yr offer yn ddiogel a phriodol, ac oes angen rhagor o arian ar gyfer hyfforddi unigolion i'w ddefnyddio.

Noder y gall offer sydd wedi ei lunio ar gyfer pobl anabl neu wedi'i addasu ar eu cyfer gael ei eithrio rhag TAW. Am ragor o fanylion am eithrio rhag TAW, ffoniwch llinell gymorth Cyswllt Teulu neu ewch at wefan Cyllid y Wlad
Gwefan: http://tinyurl.com/lcttl

Costau cynnal yr offer
Bydd angen ichi wybod hefyd ai chi yntau'r awdurdod lleol fydd berchen yr offer. Os mai chi sydd berchen yr offer, yna chi hefyd fydd yn gyfrifol am y cynnal a chadw, costau a ddylid eu cynnwys yn y talidau uniongyrchol. Fel arall, dylai'r awdurdod lleol drefnu cynnal a chadw'r offer.

Dewis offer drutach
Gallwch ychwanegu at eich taliadau uniongyrchol er mwyn prynu darn o offer sy'n ddrutach cyn belled â'i fod yn parhau i ateb gofynion eich plentyn.

Talu am addasiadau parhaol
Nodwch mai dim ond ariannu offer ac addasiadau dros dro a fyddai fel arfer yn cael eu darparu gan y gwasanaethau cymdeithasol y mae taliadau uniongyrchol. Dydyn nhw ddim yn ariannu

addasiadau parhaol I'ch cartref. Am ragor o fanylion am addasiadau parhaol, ffoniwch ein llinell gymorth neu edrychwch ar ein harweiniad: "Cymhorthion, offer ac addasiadau" ar
Web: http://www.cafamily.org.uk

Offer a ddylid gael ei ddarparu gan y GIC
Ni ellid defnyddio taliadau uniongyrchol er mwyn prynu offer a fyddai'n cael ei ariannu gan y GIC fel arfer, e.e cadair olwyn.

Defnyddio taliadau uniongyrchol i dalu am seibiannau byr

Gellid defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer prynu seibiannau byr. Gall hyn gynnwys plentyn yn mynd i uned seibiant preswyl, neu seibiannau mwy hyblyg megis mynd i aros efo gweithiwr gofal neu PA yn mynd ar wyliau efo plentyn.

Y cyfnod hwyaf o ofal seibiant preswyl y gallwch brynu ar gyfer plentyn gan ddefnyddio taliadau uniongyrchol ydi cyfnod sengl o bedair wythnos a 120 o ddiwrnodau mewn unrhnyw gyfnod 12 mis.

A chithau bellach yn derbyn taliadau uniongyrchol

Cadw cofnod o sut y mae eich taliadau uniongyrchol wedi eu gwario
Cyn bod taliadau uniongyrchol yn cychwyn, bydd gwasanaethau cymdeithasol yn debygol o ofyn ichi arwyddo cytundeb fydd yn datgan mai dim ond ar gyfer anghenion asesedig eich plentyn y byddwch yn gwario'r arian. Wedi hynny, bydd disgwyl ichi roi gwybod iddyn nhw sut yr ydach chi wedi gwario'r taliadau uniongyrchol. Golyga hyn y bydd rhaid ichi gadw talebau ar gyfer unrhyw beth y byddwch yn defnyddio'r taliadau uniongyrchol ar gyfer eu talu.
Bydd yr awdurod lleol yn dweud wrthych chi pa gofnodion eraill y bydd disgwyl ichi eu cadw a pha wybodaeth y bydd disgwyl ichi ei ddarparu.

Defnyddio cyfrif banc i weinyddu'r taliadau
Bydd angen cyfrif banc neu gyfrif Cymdeithas Adeiladu ar wahân er mwyn cadw golwg ar sut y mae'r taliadau uniongyrchol wedi eu gwario. Gallwch ddefnyddio'r cyfrif hwn ar gyfer derbyn y talidau uniongyrchol y byddwch yn eu derbyn ac i dalu eich PA neu eich darparwr gwasanaeth.

Diweddaru'r wybodaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol
Os ydi'r awdurod lleol yn anhapus efo'r modd y cafodd eich taliadau uniongyrchol eu gwario, er enghraifft, os na chafodd ei ddefnyddio ar gyfer ateb yr anghenion y cytunwyd arno , fe allan nhw ofyn am ad-daliad. O ystyried hyn, dylech wastad adael i weithiwr cymdeithasol wybod os ydach am wneud unrnhyw newidiadau i'r gwasanaethau y prynwch. Gall fod y cytundeb taliadau uniongyrchol yn caniatau ichi wneud newidiadau bychain heb roi gwybod iddyn nhw, er enghraifft newid i'r amser y bydd gwasanaeth yn cychwyn neu'n gorfffen pob diwrnod. Fodd bynnag, gyda unrhyw newidiadu mwy sylweddol dylid wastad trafod y rhain gyntaf gyda'ch gweithiwr cymdeithasol.

Delio gydag argyfyngau
Fe all adegau godi pan fo'r trefniadau gofal sydd wedi'u hariannu gan eich taliadau uniongyrchol yn methu. Er enghraifft, oherwydd bod eich PA yn sâl. Wrth sefydlu taliadau uniongyrchol yn y lle cyntaf, dylech drafod gyda'r gwasnaethau cymdeithasol o ran yr hyn fydd yn digwydd os oes angen llanw argyfwng arnoch.

Er enghraifft, efallai y gallwch drefnu'r llanw hwn gydag asiantaeth. Ond os nad ydi eich cynllun argyfwng yn gweithio am unrhyw reswm , dylai'r gwasanaethau cymdeithasol gamu i mewn a darparu gofal yn ystod unrhyw gyfnod pan nad ydi'r gwasanaethau arferol ar gael.

Adolygu eich taliadau uniongyrchol

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am adolygu'r gwasanaethau sydd wedi eu prynu drwy gyfrwng taliadau uniongyrchol. Y nod ydi sicrhau bod anghenion y cynllun gofal yn dal i gael eu hateb a bod y gwasanaeth o ansawdd digonol. Dylai'r awdurdod lleol drefnu adolygiadau rheolaidd, ond fe allwch ofyn am adolygiad os ydi'r amgylchiadau'n newid yn sydyn.
Yn dilyn adolygiad, efallai bydd angen cynyddu neu leihau'r taliadau uniongyrchol.

Wrth bwy y gallaf gwyno os nad ydwi'n hapus efo'r gwasanaeth dwi'n ei dderbyn gyda thaliadau uniongyrchol?

Os ydach yn prynu gofal gan ddarparwr gwasanaeth ac yn anhapus gyda'r gwasnaeth sy'n cael ei ddarparu ganddynt, yna dylech godi hynny hefo nhw'n uniongyrchol. Dylech gael cytundeb ysgrifenedig gyda'r darparwr yn amlinellu beth y dylent ei wneud. Gall gwasanaeth cefnogi lleol helpu'r broses hon wrth eirioli ar eich rhan. Fel arall, mae'n bosib y medrwch gwyno wrth yr asiantaeth sy'n gyfrifol am gofrestru'r darparwr hwnnw.
Yn y pendraw, os nad ydach chi'n hapus efo'r darparwr gallwch derfynu'r gwasanaeth a defnyddio gwasanaeth arall. Mae'n syniad da diweddaru'r awdurdod lleol o ran gwybodaeth oherwydd os ydach yn ei chael hi'n anodd cael hyd i wasanaeth amgen, mae'n bosib y bydd angen iddyn nhw gamu i'r adwy dros dro er mwyn gwneud trefniadau amgen.

Os nad ydach chi'n hapus efo'r gwasanaethau y mae eich PA yn eu darparu, yna bydd angen ichi drafod y mater efo nhw cyn gynted â phosib- yn ddelfrydol cyn y bydd y cyfnod prawf cychwynnol yn darfod. Fel cyflogwr bydd angen ichi ddefnyddio'r gweithdrefnau cywir wrth ddisgyblu staff- chewch chi ddim diswyddo staff yn awtomatig os nad ydach yn hapus â'u gwaith. Gallai methu dilyn y gweithdrefnau hyn arwain at dribiwnlys cyflogaeth, felly gofalwch eich bod yn chwilio am gyngor gan eich cynllun cefnogi taliadau uniongyrchol lleol.

Beth os byddaf yn penderfynu nad ydi taliadau uniongyrchol yn iawn imi?
Os penderfynwch roi'r gorau i ddefnyddio taliadau uniongyrchol, dylai'r awdurdod lleol drefnu'r gefnogaeth y mae eich plentyn ei angen yn lle hynny. Fodd bynnag, bydd angen ichi ystyried unrhyw ymrwymiadau yr ydach wedi eu rhoi i'r darparydd gwasanaeth/ PA presennol, er enghraifft mae'n debyg y bydd rhaid ichi roi cyfnod penodol o notis.

Cwestiynau a ofynnir yn aml

Os dwi'n derbyn taliadau uniongyrchol a fydd hyn yn effeithio ar unrhyw daliadau y bydd fy nheulu yn eu derbyn?
Na – does gan taliadau uniongyrchol ddim effaith ar hawl i fudd-daliadau.

Mae fy awdurdod lleol yn dweud nad ydyn nhw'n rhoi taliadau uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau i blant ac mai mater o ddisgresiwn ydi'r taliadau hyn. Ydi hynny'n gywir?
Yn wreiddiol, cynllun ar ddisgresiwn oedd taliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, ers 2003, mae yna ymrwymiad cyfreithiol ar gynghorau lleol i gynnig y dewis o daliadau uniongyrchol i grwpiau penodol, gan gynnwys unigolion gyda chyfrifoldeb rhiant dros blant anabl, os oes ganddynt anghenion asesedig ar gyfer gwasanaethau

Ydi'n bosib rhoi arian tuag at fy nhaliadau uniongyrchol er mwyn prynu gwasanaethau drutach neu wasanaethau ychwanegol?
Ydi. Os ydach chi'n derbyn taliadau uniongyrchol, does dim all eich rhwystro rhag defnyddio incwm ychwanegol neu ofal drutach nag y mae'r awdurdod lleol yn fodlon i'w ariannu.

Mae ngweithiwr cymdeithasol yn dweud nad oes mwy o arian yn eu "cyllideb" taliadau uniongyrchol, ac y bydd rhaid aros tan flwyddyn nesaf tan y cawn daliadau uniongyrchol. Ydyn nhw'n gallu gwneud hyn?
Holwch am ragor o gyngor gan eich llinell gymorth ynghylch herio'r penderfyniad hwn. Os ydi eich awdurdod lleol wedi asesu anghenion eich plentyn ac wedi cytuno bod angen cefnogaeth, fedran nhw ddim ddefnyddio diffyg adnoddau ariannol fel esgus i beidio ag ateb anghenion eich plentyn. Mae hyn yn berthnasol ar gyfer taliadau uniongyrchol neu wasanaethau a ddarperir ganddyn nhw.

A fyddai'n parhau i dderbyn taliadau uniongyrchol os ydi fy mhlentyn yn yr ysbyty?
Wrth sefydlu eich taliadau uniongyrchol, gofalwch eich bod yn trafod y mater hwn efo'r awdurdod lleol. Mewn rhai amgylchiadau bydd angen derbyn gwasanaethau PA hyd yn oed os ydi eich plentyn mewn ysbyty. Mewn achos fel hyn, mae yna ddadl gref y dylai'r taliadau uniongyrchol barhau yn yr un modd ag arfer.
Fodd bynnag, hyd yn oed os na fydd angen help gan eich PA yn ystod y cyfnod y mae eich plentyn yn yr ysbyty, mae'n bosib y bydd rhaid ichi barhau i'w talu- o leiaf yn ystod eu cyfnod notis cytunedig.O gofio hyn, gall yr awdurdod lleol gytuno i roi swm ychwanegol yn eich taliadau uniongyrchol i'w osod o'r neilltu ar gyfer talu am gyflog eich PA pe bai'n rhaid i'ch plentyn dreulio cyfnod yn yr ysbyty.

Cysylltiadau defnyddiol

Ar gyfer rhagor o gyngor ynghylch unrhyw elfen o ddefnyddio taliadau uniongyrchol
Ffoniwch llinell gymorth Cyswllt Teulu **ar 0808 808 3555**
(Llu-Gwe 10.00–4.00; Llu 5.30-7.30.00). Gallwn hefyd ddarparu manylion am y gwasanaeth taliadau uniongyrchol lleol ar gyfer eich ardal.

Gellid cael hyd i arweiniad manwl ar daliadau uniongyrchol ar
Gwefan Adran Iechyd : http://tinyurl.com/2fpknm

Canolfan Genedlaethol Byw Annibynnol
(NCIL)
Ffôn: 0207 587 1663
Gwefan: http://www.ncil.org.uk/default.asp
Sefydliad cenedlaethol sy'n hyrwyddo byw annibynnol. Mae NCIL yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth ynghylch taliadau uniongyrchol a chyflogi cynorthwywyr personol.

Llinell Gymorth Cyllid a Thollau'r Wlad ar gyfer cyflogwyr newydd
Ffôn: 0845 607 0143
Gwefan: http://www.hmrc.gov.uk
Yn darparu gwybodaeth ar gyfer ystod o faterion yn ymwneud â bod yn gyflogwr, yn enwedig o ran tâl, yswiriant cenedlaethol, a hawl i amser o'r gwaith. Ar ben eu "Pecyn cychwyn ar gyfer cyflogwyr newydd", mae Cyllid y Wlad hefyd yn cynyhyrchu nifer o gyhoediadau defnyddiol megis "Arweiniad i gyflogwyr ar PAYE a NIC".

OFSTED
Ffôn: 08456 404040
Gwefan: http://www.ofsted.gov.uk
Yn rheoli ac arolygu darparwyr gofal plant yn Lloegr, gan gynnwys gofalwyr plant, meithrinfeydd a gofal wedi'r ysgol.

Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol
Ffôn: 0845 015 0120
Gwefan: http://www.csci.org.uk
Yn rheoli ac arolygu asiantaethau sy'n darparu gofal personol i bobl anabl yn eu cartref eu hunain

Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru
Ffôn: 01443 848450
Gwefan: http://tinyurl.com/2r4o7n
Yn rheoli ac arolygu darparwyr gofal i blant yng Nghymru

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Ffôn: 0845 604 5510
Gwefan: http://www.cehr.org.uk
Ar gyfer cyngor am osgoi rhagfarnu wrth recriwtio ac yn yn byd gwaith.

Adran Busnes, Menter a Diwygiadau Rheoleiddiol (BERR)
Ffôn: 020 7215 5000
Gwefan: http://www.berr.gov.uk
Yn cynhyrchu nifer o daflenni ffeithiol wedi'u hanelu at gyflogwyr bychain ar faterion megis hawliau mamolaeth, contractau cyflogaeth, diswyddo teg ac anheg,a hawliau diswyddo.

ACAS
Ffôn: 08457 474747
Gwefan: http://www.acas.org.uk
Darparu cyngor a gwybodaeth am gyfraith cyflogaeth ac arfer dda ar gyfer cyflogwyr

Mae peth o'r deunydd yn yr arweiniad hwn wedi ei seilio ar "Arweiniad Rhiant ynghylch taliadau uniongyrchol" a gynhyrchwyd gan Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, a Chyngor ar gyfer Plant Anabl.

Diolch i Gyllid a Thollau'r Wlad am eu cymorth ariannol wrth gynhyrchu'r arweiniad hwn.

Ysgrifennwyd gan Derek Sinclair

Mae llyfrynnau gwybodaeth eraill ar gael

Mae'r arweiniad hwn yn un o gyfres wedi'i chreu ar gyfer rheini a grwpiau sydd ynghlwm wrth ofalu am blant anabl. Mae rhestr lawn o gyhoeddiadau Cyswllt Teulu ar gael neu gellid ei lawrlwytho o'n gwefan:

www.cafamily.org.uk

- Arweiniad i gredydau treth (DU)
- Tadau (DU)
- Deall ymddygiad eich plentyn (DU)
- Budd-daliadau, credydau treth a chymorth ariannol (DU)
- Brodyr a Chwiorydd (DU)
- Gweithio (DU)
- Anghenion Addysgol arbennig (Cymru/Lloegr)
- Delio gydag anghenion (Cymru/ Lloegr)
- Chwilio am ofal plant a thalu amdano (DU)

Cysylltu â Ni

www.cafamily.org.uk

www.makingcontact.org

Llinell gymorth am ddim ar gyfer rheini a theuluoedd

0808 808 3555
Ar agor Llu–Gwe, 10.00–4.00;
Llun, 5.30–7.30pm

Mynediad i dros 100 o ieithoedd a mwy

Ffôntestun
0808 808 3556

Swyddfa Gofrestredig: 209-211 City Road,
Llundain EC1V 1JN
Rhif Elusen Gofrestredig: 284912
Elusen Gofrestredig yr Alban : SCO39169
Cwmni wedi'i sicrhau drwy warant
Wedi'I gofrestru yng Nghymru a Lloegr Rhif. 1633333
Rhif TAW cofrestedig. GB 749 3846 82

® Mae Cyswllt Teulu yn ddynodyn masnachol cofrestredig

Er cymryd gofal mawr wrth lunio a chyflwyno'r arweiniad hwn er mwyn sicrhau cywirdeb, ni all Cyswllt Teulu dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw gamgymeriadau neu bethau sydd wedii eu hepgor.